# PECYN RECRIWTIO YMDDIRIEDOLWYR



PLATFORM

**For mental health and social change**

Dros iechyd meddwl a newid cymdeithasol



# CROESO GAN EIN CADEIRYDD UBONGABASI OBOT

Annwyl ymgeisydd,

Diolch ichi am eich diddordeb mewn bod yn Ymddiriedolwr gyda Platfform ac am ddangos diddordeb yn ein gwaith. Bwriadwn benodi hyd at dri Ymddiriedolwr newydd i'n Bwrdd oherwydd bydd dau o'n Hymddiriedolwyr hirsefydlog yn sefyll i lawr yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ddiwedd y flwyddyn hon (2022). Gobeithio bydd yr wybodaeth yn y pecyn hwn yn ddefnyddiol ichi wrth wneud eich cais.

Ymunais â Bwrdd Platfform fel Darpar Gadeirydd ym mis Medi 2021, ar ôl cael fy nenu gan y gwaith y mae'r sefydliad yn ei wneud ym maes iechyd meddwl. Peth arall a wnaeth argraff arnaf i oedd mor eglur ac uchelgeisiol yw strategaeth y sefydliad, a'i ymrwymiad amlwg i fod yn sefydliad gwrth-hiliol, gan ddatgan yn eglur yr angen i wneud llawer mwy a bod yn llawer gwell. Fe wnaeth yr onestrwydd a'r ymrwymiad ill dau argraff arnaf.

Symudais i rôl y Cadeirydd ym mis Mawrth eleni, yn dilyn yn ôl troed Debbie Green, un o'n Hymddiriedolwyr hirsefydlog sy'n camu i lawr ym mis Medi. Cefais help graslon gan Debbie i ymgyfarwyddo â'r rôl. Rwy'n falch o fod yn rhan o arweinyddiaeth sefydliad sy'n wirioneddol ymdrechu i fyw yn unol â'n gwerthoedd ym mhopeth a wnawn. Rydym yn gweithio'n galed i gyflawni ein huchelgais. Mae'n bleser gennyf hefyd ddweud ein bod yn gwneud y gwaith gyda gwên ar ein hwynebau a gyda charedigrwydd a hiwmor, hyd yn oed pan fo pethau'n anodd. Rydym yn gweithio'n galed, ac yn chwerthin yn aml.

I mi, diwylliant ein trefn Lywodraethu sy'n gosod y nod o ran yr hyn a ddisgwyliwn gan weddill tîm Platfform - ein gwerthoedd o ymgysylltiad, tosturi, dewrder a chwilfrydedd yw ein ffodd o weithio gyda'n gilydd. Defnyddiwn gwmpas yr Amgylchedd Meddylgar yn aml, gan wneud ein gorau i fod yn groesawgar, yn agored, yn onest, ac yn garedig â'n gilydd. Mae ein cyfarfodydd, er eu bod yn strwythuredig ac yn llawn ffocws, yn ymlaciol ac yn gymharol anffurfiol, ac rydym yn cyfarfod yn rheolaidd - bob chwe wythnos. Disgwyliwn bapurau a chyflwyniadau o safon uchel gan ein Prif Swyddog Gweithredol a'r Tîm Gweithredol, ac rydym yn cadw momentwm wrth ymdrin â'r gwaith

Yn wir, mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn anodd, yn enwedig i'r 8,000 a mwy o bobl yr ydym yn eu cefnogi bob blwyddyn. Fodd bynnag, rydym yn dod allan o'r pandemig mewn sefyllfa gadarn. Rydym yn datblygu ein gweledigaeth ar gyfer 2040 a'n maniffesto dros newid, a fydd yn lansio yn yr hydref, ac rydym wrthi'n mynd drwy weddnewidiad mewnol cyffrous i fod yn sefydliad sy'n wirioneddol seiliedig ar gryfderau ac ystyriol o drawma ym mhopeth a wnawn, ac rydym yn rhoi dulliau newydd o ymdrin â newid systemau a sut rydyn ni'n cyflawni ein gwaith ar brawf, ac rydym yn tyfu. Mae'n deg dweud nad oes munud diflas i'w gael yn Platfform, ac os byddwch yn llwyddiannus yn eich cais, fe fyddech yn ymuno â ni mewn cyfnod cyffrous sy'n teimlo'n llawn potensial yn ogystal â llawn heriau.

Diolchaf ichi eto am eich diddordeb yn ein gwaith a dymunwn yn dda ichi gyda'ch cais. Os hoffech gael trafodaeth anffurfiol am y rôl, mae croeso ichi gysylltu â ni ar platfform@inclusiveboards.co.uk neu ffoniwch 0207 267 8369.

Gyda fy nymuniadau gorau,



**Ubongabasi Obot**
Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr



# HOFFECH CHI YMUNO Â BWRDD PLATFFORM?

**Platfform yw'r elusen dros iechyd meddwl a newid cymdeithasol.**

Rydym yn gobeithio penodi tri pherson newydd i'n Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Yn Platfform, credwn mewn lles cynaliadwy i bawb. Yn benodol, dymunwn:

1. Godi ymwybyddiaeth am ddull sy'n ystyriol o drawma o ddeall trallod meddyliol a meddyliau anarferol, a thynnu'r dull hwn i mewn i'r prif lif. Mae'r dull hwn yn cydnabod effaith tlodi ac anghydraddoldeb ar ein hiechyd meddwl ac mae'n cynnig dewis amgen i'r diwylliant o ddiagnosis seiciatryddol sy'n dominyddu'r maes. Rydym am weld system iechyd meddwl sy'n ystyriol o drawma yng Nghymru a thu hwnt.
2. Wneud ein 'systemau helpu' weithio'n well i bobl sy'n mynd drwy'r cyfnodau anoddaf. Rydym am weld symudiad oddi wrth ffyrdd o weithio didosturi, creulon, sy'n canolbwyntio ar fethiannau, i ffyrdd sy'n dosturiol, yn garedig a thrugarog, ac sy'n canolbwyntio ar gryfderau.

Gallwch ddysgu mwy amdanom ni a'r hyn rydym yn ei wneud yma (platfform.org/cy), ac am ein strategaeth yma (platfform.org/cy/about-us/strategy-and-values).



# Y RHAI YR HOFFEM GLYWED GANDDYNT

Mae gennym ddiddordeb mewn siarad gyda phobl o bob cefndir, sector, gwaith a phrofiadau bywyd sy'n teimlo cysylltiad ac ymroddiad i'n gwerthoedd a'n pwrpas.

Rydym yn ymroddedig i fyw ein gwerthoedd ar lefel y Bwrdd a bod yn wirioneddol gynrychioladol o'r rhai a dangynrychiolir yn rhy aml mewn sefydliadau. Rydym yn ymrwymedig i barhau i gynyddu amrywiaeth ein Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Mae ein Grŵp Gweithredu Cydraddoldeb a Chynhwysiant wrthi'n datblygu ar ein gwaith gwrth-hiliaeth ac yn datblygu rhaglenni gwaith sy'n canolbwyntio ar addysg a chynghreirio LHDTQ+ a Niwroamrywiaeth.


Gallwch ddarllen ein datganiad a'n hymrwymiadau gwrth-hiliaeth yma (platfform.org/cy/cydraddoldeb).

Yn ystod y broses ymgeisio, rydym yn ymrwymo i:

- Dalu am eich costau teithio ar gyfer dod i gyfweliadau a gynhelir wyneb yn wyneb.
- Gwneud unrhyw addasiadau rhesymol - er enghraifft, sicrhau bod gennym gyfieithydd iaith arwyddion wedi'i drefnu ymlaen llaw os dymunwch gael un.
- Darparu'r ddogfen hon ar fformat Word sydd ar gael yn barod i'w lawrlwytho.

Os oes unrhyw beth arall yr ydych yn bryderus yn ei gylch neu yr ydych yn meddwl y gallem ei ddarparu, rhowch wybod inni, os gwelwch yn dda.

Ar y dde mae rhai pethau y mae gennym ddiddordeb ynddynt. Os nad ydych chi'n gweld eich hun yma ond eich bod yn teimlo bod gennych rywbeth i'w gynnig, peidiwch â digalonni - byddem wrth ein boddau'n clywed gennych chi hefyd.



# YNGLŶN Â'R RÔL

Mae ein hymddiriedolwyr yn chwarae rhan hollbwysig mewn cefnogi a herio ein Prif Swyddog Gweithredol a'r Tîm Gweithredol i gyflawni ein strategaeth, gan fyfyrio'n barhaus a gwirio ein hunain i sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn sydd wirioneddol o bwys, ac i sicrhau bod yr elusen yn cael ei rhedeg yn briodol ac yn gywir.

Nid oes angen ichi feddu ar brofiad blaenorol o fod ar Fwrdd, ond mae angen gallu dangos dealltwriaeth o lywodraethu elusen. Gallwch ddysgu mwy am ddyletswyddau Ymddiriedolwyr Elusennau yma (gov.uk/government/collections/5-minute-guides-for-charity-trustees).

Yn Platfform, ein nod yw codi mewnbwn a dylanwad ein Hymddiriedolwyr y tu hwnt i'r pethau sylfaenol ac i lefel trafodaethau cynhyrchiol a dyfeisio strategaethau. Rydym yn credu'n gryf yn y syniad mai rhagoriaeth syniadau, rhinweddau a phrofiadau nifer o bobl yn fwy buddiol na gwrando ar ddim ond nifer fach o bobl. Felly, gwahoddir Ymddiriedolwyr Platfform i gymryd rhan weithredol a helpu i lywio ein cyfeiriad strategol drwy weithio ar y cyd â'r tîm gweithredol a thimau ehangach Platfform.

Gallwch ddysgu mwy am ein Hymddiriedolwyr, ein tîm gweithredol a rhai o aelodau'r tîm ehangach yma (platfform.org/cy/about-us/this-is-us).

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob chwe wythnos, ar-lein ac wyneb yn wyneb bob yn ail, ac fel arfer rhwng 4yh a 6yh. Cynhelir cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn Ne Cymru fel arfer, yn agos at gysylltiadau trafnidiaeth ffordd a rheilffordd. Rydym yn cynnal digwyddiad cynllunio strategol blynyddol, a gynhelir dros ddau ddiwrnod cyfan un diwrnod ar ôl y llall, ac anogir Ymddiriedolwyr i fynychu hwn.

Nid oes tâl am y rolau, ond telir holl gostau rhesymol.



# MYND ATI I YMGEISIO

Os oes gennych chi ddiddordeb yn y rôl ac yr hoffech gael gwybod mwy, ewch i fwrw golwg dda o gwmpas ein gwefan yma (platfform.org/cy) a dilynwch ni ar Twitter yma (@weareplatfform).

Mae'r broses recriwtio'n cael ei chynnal gan Inclusive Boards ar ran Platfform. Os hoffech ymgeisio am y rôl hon, cyflwynwch y canlynol erbyn **23:59yh ar yr 20fed o Fehefin 2022**, os gwelwch yn dda:

- CV cyfredol, cryno (uchafswm o 3 ochr). Da chi, peidiwch â phoeni os nad oes gennych hanes maith o waith cyflogedig. Mae CV eich bywyd yr un mor ddiddorol i ni - felly byddwch mor greadigol ag y dymunwch fod.
- Datganiad byr, naill ai yn ysgrifenedig neu fel fideo neu nodyn sain*, yn ateb y tri chwestiwn canlynol:
    1. Beth sy'n eich diddori am Platfform a pham?
    2. Beth fyddai ein profiad ni o weithio gyda chi, pe byddech chi'n ymuno â ni fel Ymddiriedolwr?
    3. Beth fyddech chi'n ei ychwanegu at ein llywodraethu wrth ymuno?
- Manylion dau ganolwr proffesiynol ynghyd â datganiad byr i ddisgrifio eu perthynas â chi a pha mor hir maen nhw wedi'ch adnabod chi. Ni fyddwn yn cysylltu â chanolwyr heb gael eich caniatâd ymlaen llaw.
- Ffurflen monitro amrywiaeth (ar gael yma) - bydd eich data'n cael ei gadw ar wahân i'ch cais ac ni fydd yn cael ei gysylltu â chi na'ch cais ar unrhyw adeg. Mae'n bwysig iawn inni ddeall pwy'r ydym yn eu cyrraedd (ac, yn hollbwysig, pwy nad ydym yn eu cyrraedd) er mwyn inni allu parhau i wneud yn well yn ein gwaith ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant.

Byddwn yn cynnal digwyddiad wyneb yn wyneb i ddarpar Ymddiriedolwyr gael cwrdd ag aelodau'r Bwrdd, y tîm gweithredol a'r tîm ehangach ar **7fed Gorffennaf 2022** yng Nghaerdydd.

**ni chaiff datganiadau ysgrifenedig fod yn hirach na dwy ochr A4 (maint ffont 11). Ni chaiff nodiadau sain a fideos fod yn hirach na chyfanswm o bedwar munud o hyd.*

*Oherwydd natur ein gwaith, bydd y rolau'n galw am wiriad ehangach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).*

*Cyfnodau gwasanaethu ein Hymddiriedolwyr yw - cyfnod cyntaf o bum mlynedd, gydag opsiwn am ail gyfnod o bedair blynedd.*

*Gellir dod o hyd i'r ffurflen monitro amrywiaeth yma: (docs.google.com/forms/d/e/1FAIpQLSfqCmED8S3Tc4RQeDDSoOQ2f-gfE28H7oMe4cXQBdLhyznf-g/viewform)*

---

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech drefnu galwad i drafod y rôl, anfonwch ebost at platfform@inclusiveboards.co.uk neu ffoniwch 0207 267 8369.**

**Ewch i'r wefan hon (inclusiveboards.co.uk/opportunities) i wneud cais ar-lein, neu anfonwch eich CV a llythyr ategol i platfform@inclusiveboards.co.uk.**

---



platfform.org

PLATFFORM

For mental health and social change
Dros iechyd meddwl a newid cymdeithasol